1. Gardd y Gwenyn ●
2. Ysbryd ●
3. Dynes y Llyn ●
4. Cusanau ●
5. Coedwig y Tylwyth Teg ●
6. Dewi Y Ddraig Gymreig ●
7. Man Atsain ●
8. Tarw Du Cymreig ●
9. Coeden Gysgu'r Goedwig ●
10. Carreg Iachusol ●

✓ when found

Taith

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Taith Ddirgel Hudol

1. Gardd y Gwenyn

Yn ystod yr haf, gallwn gael mwy na hanner miliwn o wenyn melyn sy'n hedfan o gwmpas yr Ardd. Medrwch eu gweld yn mynd i mewn ac allan o'n cychod gwenyn o ddiogelwch y Cwt Cwch Arsylwi Gwenyn. Allwch chi weld y gwenyn yn mynd i mewn ac allan o'r cwch? Gallai'r sgrîn eich helpu i weld yn fwy clir.

2. Ysbryd gan Darren Yeaden

Mae 'Ysbryd' wedi ei lunio o farmor Eidalaidd ac wedi ei osod yn addas iawn yn adran Cyhyrau–Esgyrn Gardd yr Apothecari. Mae planhigion yn yr adran hon wedi cael eu defnyddio i drin problemau gyda'r cyhyrau, y cymalau a'r esgyrn. Darren hefyd a luniodd Gylch Iachâu'r Garreg Las ar y Rhodfa, a'r sedd farmor Teyrnged i Nigel Currie yn y Tŷ Gwydr Mawr.

Mae Ysbryd ar werth am £3600 – gofynnwch yn y siop am fanylion.

3. Dynes y Llyn

Ewch i **Neuadd yr Apothecari** (mae'n edrych fel hen ysgubor) ac edrychwch am y plac yma ar y wal. Nawr ceisiwch weld y gwahaniaeth rhwng y ddwy ferch a ddaeth i'r amlwg o Lyn y Fan Fach. Yn chwedl Meddygon Myddfai, fe ddaeth y dyn a allai weld y gwahaniaeth i briodi'r fenyw y syrthiodd mewn cariad â hi.

4. Cusanau

A hoffech chi weld sut mae pobl yn rhychu eu gwefusau i gusanu? Yn ein **Bloc Stablau** fe welwch gerflun o wefusau pobl. Efallai y bydd yn eich ysbrydoli i gusanu rhywun yr ydych yn ei garu.

5. Coedwig y Tylwyth Teg

Pan fydd ein hymwelwyr yn mynd adref yn y nos, mae'r tylwyth teg yn dod allan i chwarae. Dewch i' Goedwig y **Tylwyth Teg** a byddwch yn darganfod cymysgedd lliwgar o dai tylwyth teg, drysau tylwyth teg cyfrinachol, llygaid iasol ar goeden a hyd yn oed lein golchi dillad tylwyth teg. Cadwch eich llygaid a'ch clustiau ar agor lled y pen ac efallai y byddwch chi hyd yn oed yn gweld tylwyth teg neu ddau...

6. Dewi Y Ddraig Gymreig

Creda rhai pobl bod y ddraig hon wedi ei gwneud gan yr Efail Phoenix yng Nghaerfyrddin ond mae eraill yn honni ei bod wedi hedfan i lawr yma ar ôl ymweld â Llyn y Fan Fach, y llyn hudolus ym Mynydd Du Sir Gaerfyrddin.
Ewch a rhowch gwtsh i'r ddraig er mwyn ei chroesawu a'i chadw yma.

7. Man Atsain

A hoffech chi helpu i wneud y byd yn lle hapusach? Hoffech? Wel, ewch i fyny'r grisiau gan ddilyn ôl troed yr hen neuadd, ar y Platfform Edrych. Yma, defnyddiwch y llun ar y dde i ganfod 'llygad canolog' y coblau. Sefwch yma a dywedwch yn uchel sut y byddwch chi'n gwneud y byd yn hapus - dylech glywed rhywbeth rhyfedd.

8. Tarw Du Cymreig

Crëwch argraff ar eich ffrindiau gyda'ch dewrder - tynnwch eich llun nesaf i'r Tarw, cerflunwaith o anifail godidog.
Hyd yn oed yn well, ewch i edrych am wartheg Duon Cymreig go iawn ar ein **NNR Waun Las**, ychydig i lawr y bryn yma.

9. Coeden Gysgu'r Goedwig

Ydych chi'n teimlo'n flinedig ac yn ffansio gorwedd i lawr? Mae helwyr a ffermwyr Ghana yn chwilio am y goeden Dahoma hon pan fyddant angen cwsg. Mae gwreiddiau enfawr coed Dahoma yn creu mannau mawr i gropian i mewn iddynt a chysgu. Cyfieithir Dahoma yn Ghana fel **Da** = cysgu; **Ho** = yno; **Ma** = yn darparu neu'n rhoi. Felly, darganfyddwch y twll cysgu ac esguswch eich bod yn heliwr blinedig.

v

Dewch i gyffwrdd â charreg las y Preseli. Dyma'r un math o garreg sy'n ffurfio cylch o fewn Côr y Cewri. Credai'r bobl Geltaidd hynafol mai cerrig iachusol oedd cerrig glas y Preseli, felly os ydych chi'n teimlo ychydig yn fregus neu hyd yn oed braidd yn sarrug, ewch ati a rhowch gwtsh iddi.